Archwilio Cymru
Audit Wales

# Arolwg Sir y Fflint Digidol – **Cyngor Sir y Fflint**

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1829A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Gyngor Sir y Fflint yn rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd lywio astudiaeth ar wella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/n archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gwilym Bury a Jeff Brown o dan gyfarwyddyd Jeremy Evans.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor uchelgais digidol sydd wedi ei ddiffinio'n glir, ac maent yn cydnabod y cyfleoedd i'w wella ymhellach.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor uchelgais digidol sydd wedi ei ddiffinio'n glir, ac maent yn cydnabod y cyfleoedd i'w wella ymhellach 7

- Cydnabu'r Cyngor y gellid gwella eu Strategaeth Ddigidol ymhellach drwy adeiladu ar yr arferion digidol newydd sy'n dod i'r amlwg 7
- Er bod Camau Gweithredu'r Strategaeth Ddigidol benodol yn cefnogi Themâu Corfforaethol y Cyngor yn gyffredinol, mae angen rhagor o waith i sicrhau eu bod nhw'n adlewyrchu'n llwyr y tirlun digidol presennol 8
- Mae'r Cyngor wedi diffinio trefniadau llywodraethu a chynllunio o ran eu huchelgais digidol ac er bod y Cyngor wedi penderfynu bod adnoddau ar gyfer y rhan fwyaf o'r camau gweithredu digidol, bydd angen adolygu hyn yn barhaus wrth i'w Strategaeth Ddigidol gael ei mireinio 9

Atodiadau

Atodiad 1 – Mapio Camau Gweithredu'r Strategaeth Ddigidol i Themâu Corfforaethol y Cyngor 10

Atodiad 2 – Dyrannu adnoddau yn hunan-adlewyrchedig i Gamau Gweithredu'r Strategaeth Ddigidol 19

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Yn rhan o raglen waith archwilio 2019-20 yr Archwilydd Cyffredinol, aethom ati i gynnal adolygiad diagnostig er mwyn ystyried a yw'r Cygnor mewn sefyllfa dda i gyflawni'r uchelgeisiau yn ei Strategaeth Ddigidol.

2 O ystyried y swyddogaeth ganolog sydd gan ddigidol, ac y bydd yn parhau i fod ganddo, o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, yn awr ac yn y dyfodol, fe wnaethom ni geisio deall a yw dyheadau, cynlluniau ac adnoddau digidol y Cyngor mewn sefyllfa dda i gefnogi'r rhain.

3 Cynhaliwyd yr adolygiad gennym yn ystod cyfnod rhwng Ionawr 2020 ac Ebrill 2020.

### Ein hymagwedd

4 Ym mis Ionawr 2020, cynhaliwyd cyfarfod gennym ar y cyd â'r Prif Swyddog Gweithredol a sawl swyddog allweddol arall o Fwrdd Strategaeth Ddigidol y Cyngor i drafod cwmpas y gwaith ac i gael golwg gyffredinol o dirlun digidol presennol y Cyngor.

5 Fe wnaethom ni adolygu nifer o ddogfennau allweddol er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer y gwaith hwn, ond ein prif ddull o gynnal yr adolygiad hwn oedd trwy weithdy wedi'i hwyluso ym mis Mawrth 2020 gydag aelodau allweddol o Fwrdd Strategaeth Ddigidol Cyngor. Roedd yr ymarferion wedi'u hwyluso yn cynnwys:

- Asesu Strategaeth Ddigidol y Cyngor o'i chymharu â'r arferion gorau sy'n dod i'r amlwg
- Mapio camau gweithredu'r Strategaeth Ddigidol i Themâu Corfforaethol y Cyngor
- Nodi'r ffordd y dyrennir adnoddau i gamau gweithredu'r Strategaeth Ddigidol

6 Darparodd y gweithdy fframwaith er mwyn trafod/herio a chyfle i aelodau'r Bwrdd Strategaeth Ddigidol hunan-adlewyrchu a nodi risgiau a chyfleoedd i gyflawni uchelgeisiau digidol y Cyngor. Cwblhawyd y gwaith maes cyn yr argyfwng Coronafeirws cyfredol.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

7 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: 'A yw'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gyflawni'r uchelgeisiau yn ei Strategaeth Ddigidol?'

8 Yn fwy penodol, ystyriwyd:

**a.** a oes gan y Cyngor uchelgeisiau digidol sy'n cyfochri â'i amcanion a'i ganlyniadau hirdymor; ac

- **b.** a yw'r Cyngor wedi dyrannu adnoddau ac wedi cynllunio camau gweithredu yn effeithiol er mwyn cyflawni ei uchelgeisiau.

9 Yn gyffredinol, canfuom fod: **Gan y Cyngor uchelgais digidol sydd wedi ei ddiffinio'n glir a'i fod yn cydnabod y cyfleoedd i'w wella ymhellach.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- cydnabu'r Cyngor y gellid gwella ei Strategaeth Ddigidol ymhellach drwy adeiladu ar yr arferion digidol newydd sy'n dod i'r amlwg;
- er bod Camau Gweithredu'r Strategaeth Ddigidol benodol yn cefnogi Themâu Corfforaethol y Cyngor yn gyffredinol, mae angen rhagor o waith i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n llwyr y tirlun digidol presennol; ac
- mae'r Cyngor wedi diffinio trefniadau llywodraethu a chynllunio o ran ei uchelgais digidol ac er bod y Cyngor wedi penderfynu bod yna adnoddau ar gyfer y rhan fwyaf o'r camau gweithredu digidol, bydd angen adolygu hyn yn barhaus wrth i'w Strategaeth Ddigidol gael ei mireinio.

## Cynigion ar gyfer Gwella

**Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer Gwella**

Mae'r tabl isod yn cynnwys y cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor achub ar y cyfle i adnewyddu ei Strategaeth Ddigidol er mwyn sicrhau ei bod yn:<br>• adlewyrchu'r cyd-destun deddfwriaethol cenedlaethol cyfredol ac arferion gorau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys:<br>– egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;<br>– egwyddorion datganiad digidol Llywodraeth Leol; a<br>– safonau digidol 'Digidol yn Gyntaf' Llywodraeth yr Alban a Safonau Digidol Llywodraeth Cymru, pan gaiff y rhain eu cyhoeddi. |

C2 Dylai'r Cyngor achub ar y cyfle i ddiweddaru ei Strategaeth Ddigidol er mwyn sicrhau:

- nad yw’r prosesau o fapio’r camau gweithredu digidol i'r Themâu Corfforaethol wedi nodi unrhyw fylchau annisgwyl;
- ei bod yn cynnwys amserlen lefel uchel ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu;
- ei bod yn dileu gweithredoedd sydd bellach wedi eu cwblhau neu nad ydynt yn berthnasol mwyach;
- ei bod yn adlewyrchu'n llawn y gweithgarwch digidol cydweithredol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gyda’r Bwrdd Iechyd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- ei bod yn adlewyrchu'n llawn ymagwedd y Cyngor at gamau gweithredu a fydd yn hybu'r broses o ymwreiddio diwylliant digidol gyda’r staff a chyda dinasyddion;
- ei bod yn diweddaru geiriad y camau gweithredu er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun cyfredol a chael gwared ar unrhyw ailadrodd; a’i
- bod yn adlewyrchu unrhyw wersi perthnasol a ddysgwyd o’r argyfwng Coronafeirws.

C3 Dylai'r Cyngor sicrhau bod y camau gweithredu newydd a nodwyd yn ystod y gweithdy, megis y rhai sy'n ymwneud ag ymwreiddio ymddygiad a diwylliant digidol yn cael eu hintegreiddio i'w waith cynllunio adnoddau digidol a’i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor uchelgais digidol sydd wedi ei ddiffinio'n glir, ac mae'n cydnabod y cyfleoedd i'w wella ymhellach

### Cydnabu'r Cyngor y gellid gwella ei Strategaeth Ddigidol ymhellach drwy adeiladu ar yr arferion digidol newydd sy'n dod i'r amlwg

10 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- mae gan y Cyngor Strategaeth Ddigidol sydd wedi ei diffinio'n dda sy'n adlewyrchu llawer o'r arferion gorau/datblygol presennol o ran rheoli gwybodaeth ddigidol a thechnoleg gwybodaeth.
- wrth hunan-adlewyrchu o'i gymharu â'r arferion gorau sy'n dod i'r amlwg, cydnabu'r Cyngor y gallai'r naratif gael ei ddiffinio'n gliriach ar gyfer nifer o feysydd yn y strategaeth gyfredol, gan gynnwys:
  - rhan bwysig diwylliant ac ymddygiad o ran cyflawni uchelgais digidol a'r camau gweithredu, y gweithgareddau a'r ymyriadau penodol y mae angen eu rhoi ar waith i hwyluso a hybu hyn; a
  - chryfhau'r naratif ynghylch cynhwysiant digidol a'r cydbwysedd rhwng darparu gwasanaethau drwy sianelau digidol yn y dyfodol gan sicrhau bod anghenion dinasyddion sy'n agored i niwed yn parhau i gael eu diwallu.
- ers drafftio'r Strategaeth Ddigidol yn 2017, mae'r cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol ehangach wedi esblygu ac felly nid yw'r Strategaeth bresennol yn adlewyrchu'n llawn elfennau allanol newydd a datblygol. Yn arbennig:
  - deddfwriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chymhwyso pum ffordd o weithio y Ddeddf;
  - rhai o'r egwyddorion a amlinellir yn y Datganiad Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol, a gynigiwyd yn rhan o Adroddiad Panel Arbenigol y llynedd ar gyfer Llywodraeth Cymru ynghylch Digidol ar draws y Sector cyhoeddus – a elwir yn 'Ailgychwyn y System'; a
  - rhai o'r meysydd yn Safonau Digidol 'Digital First' Llywodraeth yr Alban a Safonau Digidol arfaethedig Llywodraeth Cymru, pan gânt eu cyhoeddi.

## Er bod Camau Gweithredu'r Strategaeth Ddigidol benodol yn cefnogi Themâu Corfforaethol y Cyngor yn gyffredinol, mae angen rhagor o waith i sicrhau eu bod yn adlewyrchu’n llwyr y tirlun digidol presennol

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- nododd y broses o fapio camau gweithredu'r Strategaeth Ddigidol i Themâu Corfforaethol y Cyngor:
  - yn gyffredinol, fod croestoriad o gamau gweithredu a oedd yn cefnogi Themâu'r Cyngor;
  - bod sawl Thema, megis ‘Cyngor Gwyrdd’ a ‘Cyngor Diogel a Glân’ lle bo llawer llai o gamau gweithredu o'u cymharu â Themâu eraill; ac
  - y Themâu â’r nifer mwyaf o gamau gweithredu oedd ‘Cyngor Gofalgar’ a ‘Cyngor sy'n Gwasanaethu’.
- ers drafftio'r Strategaeth Ddigidol yn 2017, mae'r tirlun digidol rhanbarthol a chenedlaethol wedi newid ac felly:
  - mae'r Strategaeth bresennol yn cynnwys nifer o weithredoedd sydd bellach wedi eu cwblhau neu nad ydynt yn berthnasol mwyach;
  - nid yw’r Strategaeth bresennol yn adlewyrchu'n llawn y gweithgarwch digidol cydweithredol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gyda’r Bwrdd Iechyd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
  - nid yw’r Strategaeth bresennol yn adlewyrchu'n llawn ymagwedd y Cyngor at gamau gweithredu a fydd yn hybu'r broses o ymwreiddio diwylliant digidol gyda’r Staff a chyda dinasyddion; ac
  - mae gan y Strategaeth bresennol nifer o gamau gweithredu lle nad yw'r geiriad yn adlewyrchu’n llawn y cyd-destun cyfredol, ac mae'n ailadroddus mewn rhai achosion.
- er ein bod yn cydnabod bod cynlluniau rhaglen manylach sy’n cefnogi'r Strategaeth Ddigidol lefel uchel, nid yw'r Strategaeth Ddigidol gyfredol yn cynnwys yr amserlenni lefel uchel a ragwelir ar gyfer cwblhau’r camau gweithredu.
- gweler **Atodiad 1** i gael manylion llawn ynghylch mapio hunan-adlewyrchedig camau gweithredu’r Strategaeth Ddigidol i Themâu Corfforaethol y Cyngor – mae hyn yn cynnwys y camau gweithredu/meysydd newydd a nodwyd yn ystod Ymarfer 2 y gweithdy hefyd.

## Mae'r Cyngor wedi diffinio trefniadau llywodraethu a chynllunio o ran ei uchelgais digidol ac er bod y Cyngor wedi penderfynu bod adnoddau ar gyfer y rhan fwyaf o'r camau gweithredu digidol, bydd angen adolygu hyn yn barhaus wrth i'w Strategaeth Ddigidol gael ei mireinio

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- bod gan y Cyngor Fwrdd Strategaeth Ddigidol sefydledig gyda chynrychiolaeth uwch weithredol ac anweithredol, gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol ac Aelod Portffolio'r Cabinet.
- ategir Strategaeth Ddigidol y Cyngor gan ddogfennau cynllunio rhaglenni digidol manylach, er na chafodd y rhain eu hadolygu'n fanwl.
- oherwydd absenoldeb hirdymor swyddog allweddol o'r Rhaglen Strategaeth Ddigidol, hunan-adlewyrchodd y Cyngor nad oeddent wedi gwneud y cynnydd yr oedd wedi gobeithio o ran blaenoriaethu eu prosiectau digidol.
- bod y Cyngor wedi blaenoriaethu adnoddau ar gyfer swydd newydd yn ddiweddar a fydd yn cwmpasu'r arweiniad strategol ar Ddylunio a Chyfathrebu Digidol, gan gydnabod pwysigrwydd integreiddio'r ddau faes hyn.
- dywedodd y Cyngor fod yr ymdrech sydd ei angen i ymateb yn effeithiol i Gyllid Gweddnewid Hybiau Ysgolion Llywodraeth Cymru (TG ar gyfer ysgolion) yn cael effaith negyddol ar y broses o gyflawni'r rhaglen ddigidol ehangach oherwydd ei fod yn tynnu ar gapasiti digidol cyfyngedig.
- nododd ymarfer hunan-adlewyrchu'r gweithdy ynghylch adnoddau, o'r 36 o gamau gweithdy Strategaeth Ddigidol byw, fod pob un ond naw ohonynt wedi cael adnoddau neu wedi bod yn destun cais adnoddau byw.
- tynnodd y gweithdy sylw at nifer o gamau gweithredu newydd er mwyn cefnogi'r Strategaeth, megis y rhai sy'n ymwneud ag ymwreiddio ymddygiadau a diwylliant digidol. Fodd bynnag, nid oedd yn glir a oedd y camau gweithredu hyn wedi eu hariannu'n llawn.
- i gael manylion llawn y dyraniad o adnoddau hunan-adlewyrchedig ar gyfer y Strategaeth Ddigidol, gweler **Atodiad 2**.

# Atodiad 1

## Mapio Camau Gweithredu'r Strategaeth Ddigidol i Themâu Corfforaethol y Cyngor

1. Cafodd camau gweithredu ~~â llinell drwyddynt~~ eu dosbarthu naill ai yn rhai a oedd wedi eu cwblhau neu yn rhai nad oeddent yn berthnasol mwyach yn ystod y gweithdy
2. Mae blychau gyda √ yn dynodi gweithred sydd wedi ei mapio i ‘Thema’ – ac mae blychau gwag yn dynodi gweithred nad yw ei mapio i ‘Thema’
3. Cafodd gweithredoedd mewn coch sydd wedi eu rhagddodi â ‘Newydd’ eu hychwanegu yn ystod trafodaeth y gweithdy

| | | | Themâu Corfforaethol y Cyngor | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema’r Strategaeth Ddigidol** | **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Cyngor Gofalgar** | **Cyngor Uchelgeisiol** | **Cyngor sy’n Dysgu** | **Cyngor Gwyrdd** | **Cyngor Diogel a Glân** | **Cyngor Cysylltiedig** | **Cyngor sy’n Gwasanaethu** |
| Cwsmer Digidol | 1 | Parhau i ddatblygu prosesau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid er mwyn galluogi un golwg ar y cwsmer | √ | | | | √ | √ | √ |
| Cwsmer Digidol | 2 | Datblygu cyfleusterau hunanwasanaethu i gwsmeriaid ar wefan y Cyngor | √ | | √ | √ | | √ | √ |
| Cwsmer Digidol | 3 | Cyfeirio'n effeithiol at wybodaeth ac adnoddau ar-lein ar wefan y Cyngor | √ | | √ | √ | √ | √ | √ |
| Cwsmer Digidol | 4 | Gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau dull ‘Digidol yn Gyntaf’ o ddarparu gwasanaethau | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ |
| Cwsmer Digidol | 5 | Parhau i symud gwasanaethau trafodaethol i sianeli digidol mwy effeithiol ac effeithlon drwy fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau hunanwasanaethu | √ | | √ | √ | | √ | √ |

| | | | Themâu Corfforaethol y Cyngor | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema'r Strategaeth Ddigidol** | **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Cyngor Gofalgar** | **Cyngor Uchelgeisiol** | **Cyngor sy'n Dysgu** | **Cyngor Gwyrdd** | **Cyngor Diogel a Glân** | **Cyngor Cysylltiedig** | **Cyngor sy'n Gwasanaethu** |
| Cwsmer Digidol | 6 | Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant lleol, partneriaid a'r 3ydd sector i nodi a darparu hyfforddiant effeithiol i gwsmeriaid er mwyn sicrhau bod llawer o gwsmeriaid yn manteisio ar wasanaethau digidol ac yn cefnogi Cynhwysiant Digidol | | √ | √ | | | √ | √ |
| Cwsmer Digidol | 7 | Nodi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau | √ | √ | √ | | √ | √ | √ |
| Gweithlu Digidol | 1 | Parhau i weithredu a datblygu technolegau ystwyth a symudol er mwyn galluogi cyflogeion i gael gafael ar systemau busnes a gwybodaeth o unrhyw leoliad | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ |
| Gweithlu Digidol | 2 | Datblygu gweithio symudol i gefnogi'r dasg o ddarparu gwasanaethau | | | | | | | |
| Gweithlu Digidol | 3 | Gweithredu technolegau rheoli dogfennau a chydweithio | | | | | | | |
| Gweithlu Digidol | 4 | Hyfforddiant priodol i'r gweithlu i gefnogi'r defnydd o dechnolegau a systemau digidol | | | √ | | | √ | √ |
| Gweithlu Digidol | 5 | Rhoi technolegau ar waith i gefnogi gweithio ystwyth a symudol | √ | √ | | √ | √ | √ | √ |
| Gweithlu Digidol | 6 | ~~Darpariaeth ddiwifr estynedig yn adeiladau'r Cyngor~~ | √ | √ | | √ | √ | | √ |

| | | | **Themâu Corfforaethol y Cyngor** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema'r Strategaeth Ddigidol** | **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Cyngor Gofalgar** | **Cyngor Uchelgeisiol** | **Cyngor sy'n Dysgu** | **Cyngor Gwyrdd** | **Cyngor Diogel a Glân** | **Cyngor Cysylltiedig** | **Cyngor sy'n Gwasanaethu** |
| Gweithlu Digidol | 7 | E-ddysgu – Datblygu modiwlau e-ddysgu er mwyn cefnogi datblygiad y gweithlu o ran defnyddio technolegau newydd a phresennol ac er mwyn hyrwyddo cydymffurfiaeth â deddfwriaeth rheoli gwybodaeth | | | √ | | | | √ |
| Gweithlu Digidol | 8 | ~~Rhoi mewnrwyd newydd ar waith y gall y gweithlu cyfan gael mynediad ati~~ | | | | | | | |
| Gweithlu Digidol | 9 | Parhau i ddatblygu a chyflwyno systemau hunanwasanaeth ar draws y gweithlu ac ysgolion e.e. Adnoddau Dynol a Chyflogres | √ | | | | | √ | |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 1 | Darparu a chefnogi gwasanaethau digidol i ysgolion drwy fodel darparu gwasanaethau newydd y Cyngor ar gyfer cymorth TG i Ysgolion | √ | √ | √ | | | √ | |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 2 | Darparu hyfforddiant a chymorth i staff ysgolion o ran cyflawni'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol drwy fynediad at Arweinwyr Digidol a'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion (GwE) | | | √ | | | √ | √ |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 3 | ~~Moderneiddio cyfleusterau TG cyhoeddus mewn lleoliadau cymunedol gan gynnwys Llyfrgelloedd, Cysylltu ac ati.~~ | √ | √ | | √ | | √ | √ |

| | | | Themâu Corfforaethol y Cyngor | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema'r Strategaeth Ddigidol** | **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Cyngor Gofalgar** | **Cyngor Uchelgeisiol** | **Cyngor sy'n Dysgu** | **Cyngor Gwyrdd** | **Cyngor Diogel a Glân** | **Cyngor Cysylltiedig** | **Cyngor sy'n Gwasanaethu** |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 4 | Cefnogi cymunedau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau diwifr mewn trefi | | √ | | | √ | √ | √ |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 5 | Lobïo darparwyr telathrebu a Llywodraeth Cymru i wella cwmpas a chyflymder band eang | | √ | | | | | |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 6 | Gweithio gyda'r 3ydd sector a phartneriaid eraill i nodi cyfleoedd i wella llythrennedd digidol mewn cymunedau a busnesau bach | | | | | | √ | |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 7 | Darparu hyfforddiant priodol ar gyfer y Gwasanaeth Darpariaeth Ieuenctid Integredig er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu manteisio'n llawn ar sianeli cyfathrebu modern a thechnoleg sy'n datblygu er mwyn cyfathrebu a gweithio gyda phobl ifanc | √ | | √ | | | √ | √ |

| | | | Themâu Corfforaethol y Cyngor | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema'r Strategaeth Ddigidol** | **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Cyngor Gofalgar** | **Cyngor Uchelgeisiol** | **Cyngor sy'n Dysgu** | **Cyngor Gwyrdd** | **Cyngor Diogel a Glân** | **Cyngor Cysylltiedig** | **Cyngor sy'n Gwasanaethu** |
| Partneriaeth Ddigidol | 1 | Galluogi gwybodaeth i gael ei chyfnewid yn ddiogel gyda'n partneriaid | √ | √ | | | | √ | √ |
| Partneriaeth Ddigidol | 2 | Gweithio gyda phartneriaid i symleiddio'r dull rheoli hunaniaethau | | √ | | | | √ | √ |
| Partneriaeth Ddigidol | 3 | Hyrwyddo cydweithio ar brosiectau rhanbarthol a chenedlaethol e.e:<br>• Cyfeiriadur Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan/Y Gogledd<br>• System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru<br>• ~~System Reoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan~~<br>~~• System Reoli Achosion Cyfreithiol Gogledd Cymru~~<br>~~• Gwasanaeth a gynhelir gan Capita ONE~~<br>~~• Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru~~<br>~~• Caffael~~ | √ | √ | | | √ | √ | √ |
| Rheoli Gwybodaeth | 1 | ~~Datblygu a darparu strategaeth rheoli gwybodaeth~~ | | | | | | √ | √ |
| Rheoli Gwybodaeth | 2 | ~~Datblygu a gweithredu technolegau Diogelu Gwybodaeth a Seilwaith • E-bost diogel • Rheoli digwyddiadau a logiau • Rheoli Bygythiadau Unedig~~ | | | | | | | √ |

| | | | Themâu Corfforaethol y Cyngor | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema'r Strategaeth Ddigidol** | **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Cyngor Gofalgar** | **Cyngor Uchelgeisiol** | **Cyngor sy'n Dysgu** | **Cyngor Gwyrdd** | **Cyngor Diogel a Glân** | **Cyngor Cysylltiedig** | **Cyngor sy'n Gwasanaethu** |
| Rheoli Gwybodaeth | 3 | ~~Gwerthuso gofynion Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd a gweithredu prosesau a gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiaeth~~ | | | | | | | |
| Rheoli Gwybodaeth | 4 | Adolygu a datblygu Polisïau Diogelwch Gwybodaeth | | | | | | | √ |
| Rheoli Gwybodaeth | 5 | Datblygu systemau a pholisïau i gefnogi cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau statudol, achrediadau a safonau Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, gan gynnwys; Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015 ac Achrediad Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus | √ | | √ | | | √ | √ |
| Rheoli Gwybodaeth | 6 | Ystyried ffyrdd o leihau'r baich ffisegol ac ariannol o storio ar y Cyngor, gan sicrhau cydymffurfiaeth | √ | | √ | √ | √ | | √ |
| Rheoli Gwybodaeth | 7 | Defnyddio technoleg i leihau'r data a ddyblygir, er mwyn galluogi'r broses o reoli data craidd y Cyngor yn fwy effeithlon a helpu i leihau'r baich o storio e.e. Rheoli Dogfennau Electronig | √ | | | √ | | | √ |

| | | | Themâu Corfforaethol y Cyngor | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema'r Strategaeth Ddigidol** | **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Cyngor Gofalgar** | **Cyngor Uchelgeisiol** | **Cyngor sy'n Dysgu** | **Cyngor Gwyrdd** | **Cyngor Diogel a Glân** | **Cyngor Cysylltiedig** | **Cyngor sy'n Gwasanaethu** |
| Rheoli Gwybodaeth | 8 | Manteisio i'r eithaf ar y potensial y mae gwybodaeth yn ei chynnig o ran gwella effeithlonrwydd, cynllunio adnoddau a lleihau'r galw am fethiant drwy ddefnyddio offer delweddu data megis Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) | √ | √ | | | √ | | √ |
| Cyflawni Digidol | 1 | Mapio Technoleg (adnewyddu Glasbrint Technoleg) | | | | | | | √ |
| Cyflawni Digidol | 2 | ~~Datblygu trefniadau llywodraethu gwell~~ | | | | | | √ | √ |
| Cyflawni Digidol | 3 | Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy dechnoleg | | √ | √ | | | √ | √ |
| Cyflawni Digidol | 4 | Rheoli'r capasiti'n well yn y gwasanaeth | | | | | | √ | √ |
| Cyflawni Digidol | 5 | Blaenoriaethu'n effeithiol ar draws y Cyngor i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu er mwyn darparu atebion yn effeithiol ac yn briodol | | √ | | | | | √ |
| Cyflawni Digidol | 6 | Rhaglen rhesymoli Cymorth ar gyfer Asedau | | | | √ | | | √ |

| | | | Themâu Corfforaethol y Cyngor | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema'r Strategaeth Ddigidol** | **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Cyngor Gofalgar** | **Cyngor Uchelgeisiol** | **Cyngor sy'n Dysgu** | **Cyngor Gwyrdd** | **Cyngor Diogel a Glân** | **Cyngor Cysylltiedig** | **Cyngor sy'n Gwasanaethu** |
| Cyflawni Digidol | 7 | Sicrhau bod gennym ddarlun clir o'r holl asedau TG corfforaethol, eu gwerth, gwybodaeth am gontractau perthnasol a thrwyddedau ac amserlenni gwarant a darnau newydd. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r drwydded wrth inni helpu i gynllunio'r broses o reoli asedau ariannol. | | | | | | | √ |
| Cyflawni Digidol | 8 | ~~Gweithredu Cyfathrebiadau a Unir gan Fenter: • Microsoft Exchange • Skype for business • Technoleg integredig~~ | | | | | | | √ |
| Cyflawni Digidol | 9 | Cyfuno Systemau Busnes: • Dileu Nodiadau Lotus • Adolygu systemau busnes er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau o fuddsoddiadau mewn meddalwedd 3ydd parti • Rhesymoli systemau i weld a allwn leihau nifer y systemau busnes â photensial i wneud arbedion effeithlonrwydd drwy leihau trwyddedau a gorbenion rheoli systemau | | | | | | | √ |
| Cyflawni Digidol | 10 | ~~Gweithredu System Ariannol er mwyn cefnogi Modelau Cyflawni Amgen~~ | | | | | | | √ |
| Cyflawni Digidol | 11 | Adolygiad o system ariannol Masterpiece | | | | | | | √ |
| Cyflawni Digidol | 12 | Gwerthuso a gweithredu technolegau cwmwl; • Microsoft Office 365 • Microsoft Azure | | | | | | | √ |

| | | | Themâu Corfforaethol y Cyngor | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema'r Strategaeth Ddigidol** | **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Cyngor Gofalgar** | **Cyngor Uchelgeisiol** | **Cyngor sy'n Dysgu** | **Cyngor Gwyrdd** | **Cyngor Diogel a Glân** | **Cyngor Cysylltiedig** | **Cyngor sy'n Gwasanaethu** |
| Newydd | | Mae angen cynnwys Camau Cyflawni ar gyfer Gwasanaethau i oedolion a phlant yn y Cynllun Gweithredu | √ | | | | | | |
| Newydd | | Dylid cynnwys Camau Gweithredu Partneriaeth ar gyfer: Cydweithrediadau Iechyd Digidol a CRTau | | | | | | | √ |
| Newydd | | Dylid ychwanegu camau gweithredu ar gyfer datblygu'r diwylliant digidol yn y Cyngor a chyda dinasyddion | | | | | | | √ |
| Newydd | | Camau gweithredu er mwyn cipio'r gwaith digidol gyda Phartneriaid, Cyflenwyr (lleol a rhanbarthol) ac ym maes caffael (e.e Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol, CRTau Health ac ati) | | √ | √ | √ | | | |
| Newydd | | Mae'r camau gweithredu ar Resymoli canolfannau data a chyflwyniad y cwmwl yn cael effaith fawr ar uchelgeisiau'r Cyngor Gwyrdd | | | | √ | | | |
| Newydd | | Dylid aileirio Cam Gweithredu ar gyfer Cyflawni Digidol – wedyn byddai nifer o'r rhain yn mapio i'r Thema Diogel a Glân | | | | | √ | | |
| Newydd | | Dylid cynnwys cam gweithredu ynghylch ymwreiddio Diwylliant digidol i'r Cyngor a'u dinasyddion | | | √ | | | √ | |
| Newydd | | Dylid cynnwys camau gweithredu er mwyn sicrhau bod y strategaeth ddigidol yn Mapio i safonau digidol Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth yr Alban | | | | | | √ | |
| | | **Cyfanswm y Camau Gweithredu** | **20** | **17** | **17** | **13** | **12** | **27** | **40** |

# Atodiad 2

## Dyrannu adnoddau yn hunan-adlewyrchedig i Gamau Gweithredu'r Strategaeth Ddigidol

1. Cafodd camau gweithredu ~~â llinell drwyddynt~~ eu dosbarthu naill ai fel rhai a oedd wedi eu cwblhau neu rai nad oeddent yn berthnasol mwyach yn ystod y gweithdy

| Thema'r Strategaeth Ddigidol | Rhif | Cam Gweithredu | A yw'r cam gweithredu wedi ei ariannu'n llawn yng nghyllideb 20-21 | A yw'r cam gweithredu yn cael ei ariannu'n ddangosol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol | A oes Cais Cyfredol am adnoddau | A oes cam gweithredu nad ariennir yn benodol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwsmer Digidol | 1 | Parhau i ddatblygu prosesau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid er mwyn galluogi un golwg ar y cwsmer | Ydy | | Oes | |
| Cwsmer Digidol | 2 | Datblygu cyfleusterau hunanwasanaethu i gwsmeriaid ar wefan y Cyngor | Ydy | | Oes | |
| Cwsmer Digidol | 3 | Cyfeirio'n effeithiol at wybodaeth ac adnoddau ar-lein ar wefan y Cyngor | | | Oes | |
| Cwsmer Digidol | 4 | Gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau dull 'Digidol yn Gyntaf' o ddarparu gwasanaethau | Ydy | Ydy | Oes | |
| Cwsmer Digidol | 5 | Parhau i symud gwasanaethau trafodaethol i sianeli digidol mwy effeithiol ac effeithlon drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau hunanwasanaethu | Ydy (Yn rhannol) | | Oes | |

| Thema’r Strategaeth Ddigidol | Rhif | Cam Gweithredu | A yw’r cam gweithredu wedi ei ariannu'n llawn yng nghyllideb 20-21 | A yw’r cam gweithredu yn cael ei ariannu’n ddangosol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol | A oes Cais Cyfredol am adnoddau | A oes cam gweithredu nad ariennir yn benodol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwsmer Digidol | 6 | Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant lleol, partneriaid a’r 3ydd sector i nodi a darparu hyfforddiant effeithiol i gwsmeriaid er mwyn sicrhau bod llawer o gwsmeriaid yn manteisio ar wasanaethau digidol ac yn cefnogi Cynhwysiant Digidol | Ydy (Mae’n cael ei gwmpasu ar hyn o bryd) | | | |
| Cwsmer Digidol | 7 | Nodi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau | | | Oes | |

| Thema'r Strategaeth Ddigidol | Rhif | Cam Gweithredu | A yw'r cam gweithredu wedi ei ariannu'n llawn yng nghyllideb 20-21 | A yw'r cam gweithredu yn cael ei ariannu'n ddangosol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol | A oes Cais Cyfredol am adnoddau | A oes cam gweithredu nad ariennir yn benodol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithlu Digidol | 1 | Parhau i weithredu a datblygu technolegau ystwyth a symudol er mwyn galluogi cyflogeion i gael gafael ar systemau busnes a gwybodaeth o unrhyw leoliad | Bron wedi ei gwblhau<br>Ydy (Yn rhannol) | | | Nid oes gan y gwasanaethau cymdeithasol adnoddau oherwydd nad ofynnwyd amdanynt eto. |
| Gweithlu Digidol | 2 | Datblygu gweithio symudol i gefnogi'r dasg o ddarparu gwasanaethau | (Gweler 1 uchod) | | | |
| Gweithlu Digidol | 3 | Gweithredu technolegau rheoli dogfennau a chydweithio | Ydy<br>SharePoint i ddisodli'r ateb cyfredol | Ydy | | |
| Gweithlu Digidol | 4 | Hyfforddiant priodol i'r gweithlu i gefnogi'r defnydd o dechnolegau a systemau digidol | Ydy | | | |
| Gweithlu Digidol | 5 | Rhoi technolegau ar waith i gefnogi gweithio ystwyth a symudol | Gweler 1 uchod | | | |
| Gweithlu Digidol | 6 | ~~Darpariaeth ddi-wifr estynedig yn adeiladau'r Cyngor~~ | Cwblhawyd | | | |
| Gweithlu Digidol | 7 | E-ddysgu – Datblygu modiwlau e-ddysgu er mwyn cefnogi datblygiad y gweithlu o ran defnyddio technolegau newydd a phresennol ac er mwyn hyrwyddo cydymffurfiaeth â deddfwriaeth rheoli gwybodaeth | Ydy | Ydy | | |

| Thema'r Strategaeth Ddigidol | Rhif | Cam Gweithredu | A yw'r cam gweithredu wedi ei ariannu'n llawn yng | A yw'r cam gweithredu yn cael ei ariannu'n ddangosol | A oes Cais Cyfredol am adnoddau | A oes cam gweithredu nad ariennir yn benodol |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | **nghyllideb 20-21** | **yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithlu Digidol | 8 | ~~Rhoi mewnrwyd newydd ar waith y gall y gweithlu cyfan gael mynediad ati~~ | (Cwblhawyd ond cyfyngedig yw'r nifer sy'n manteisio arni) | | | |
| Gweithlu Digidol | 9 | Parhau i ddatblygu a chyflwyno systemau hunanwasanaeth ar draws y gweithlu ac ysgolion e.e. Adnoddau Dynol a Chyflogres | | | | Oes |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 1 | Darparu a chefnogi gwasanaethau digidol i ysgolion drwy fodel darparu gwasanaethau newydd y Cyngor ar gyfer cymorth TG i Ysgolion | Cwblhawyd (ond gofynnir am weithredu ychwanegol ar gyfer HWB) | | | |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 2 | Darparu hyfforddiant a chymorth i staff ysgolion o ran cyflawni'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol drwy fynediad at Arweinwyr Digidol a'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion (GwE) | | | Oes | |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 3 | ~~Moderneiddio cyfleusterau TG cyhoeddus mewn lleoliadau cymunedol gan gynnwys Llyfrgelloedd, Cysylltu ac ati.~~ | Cwblhawyd | | | |

| Thema’r Strategaeth Ddigidol | Rhif | Cam Gweithredu | A yw’r cam gweithredu wedi ei ariannu'n llawn yng nghyllideb 20-21 | A yw’r cam gweithredu yn cael ei ariannu’n ddangosol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol | A oes Cais Cyfredol am adnoddau | A oes cam gweithredu nad ariennir yn benodol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 4 | Cefnogi cymunedau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau di-wifr mewn trefi | | | | Oes |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 5 | Lobïo darparwyr telathrebu a Llywodraeth Cymru i wella cwmpas a chyflymder band eang | Ydy (mae angen ychwanegu Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol) | | | |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 6 | Gweithio gyda'r 3ydd sector a phartneriaid eraill i nodi cyfleoedd i wella llythrennedd digidol mewn cymunedau a busnesau bach | | | | Oes |
| Busnes a Chymuned Ddigidol | 7 | Darparu hyfforddiant priodol ar gyfer y Gwasanaeth Darpariaeth Ieuenctid Integredig er mwyn sicrhau eu bod nhw’n gallu manteisio'n llawn ar sianeli cyfathrebu modern a thechnoleg sy'n datblygu er mwyn cyfathrebu a gweithio gyda phobl ifanc. | | | | Oes |

| Thema'r Strategaeth Ddigidol | Rhif | Cam Gweithredu | A yw'r cam gweithredu wedi ei ariannu'n llawn yng nghyllideb 20-21 | A yw'r cam gweithredu yn cael ei ariannu'n ddangosol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol | A oes Cais Cyfredol am adnoddau | A oes cam gweithredu nad ariennir yn benodol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Partneriaeth Ddigidol | 1 | Galluogi gwybodaeth i gael ei chyfnewid yn ddiogel gyda'n partneriaid | YDY (GYDAG ADNODDAU RHANNOL) | | | |
| Partneriaeth Ddigidol | 2 | Gweithio gyda phartneriaid i symleiddio'r dull rheoli hunaniaethau | | | | Oes |
| Partneriaeth Ddigidol | 3 | Hyrwyddo cydweithio ar brosiectau rhanbarthol a chenedlaethol e.e:<br>• Cyfeiriadur Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan/Y Gogledd<br>• System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru<br>~~• System Reoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan~~<br>~~• System Reoli Achosion Cyfreithiol Gogledd Cymru~~<br>~~• Gwasanaeth a gynhelir gan Capita ONE~~<br>~~• Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru~~<br>~~• Caffael~~ | Ydy (Yn rhannol)<br>Nid yw Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i WCCIS.<br>Cwblhawyd<br>Cwblhawyd<br>Cwblhawyd<br>Cwblhawyd<br>Cwblhawyd | | | |

| Thema'r Strategaeth Ddigidol | Rhif | Cam Gweithredu | A yw'r cam gweithredu wedi ei ariannu'n llawn yng nghyllideb 20-21 | A yw'r cam gweithredu yn cael ei ariannu'n ddangosol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol | A oes Cais Cyfredol am adnoddau | A oes cam gweithredu nad ariennir yn benodol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Gwybodaeth | 1 | ~~Datblygu a darparu strategaeth rheoli gwybodaeth~~ | Ydy (Cwblhawyd) | | | |
| Rheoli Gwybodaeth | 2 | ~~Datblygu a gweithredu technolegau Diogelu Gwybodaeth a Seilwaith • E-bost diogel • Rheoli digwyddiadau a logiau • Rheoli Bygythiadau Unedig~~ | Ydy (Cwblhawyd) | | | |
| Rheoli Gwybodaeth | 3 | ~~Gwerthuso gofynion Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd a gweithredu prosesau a gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiaeth~~ | Ydy (Cwblhawyd) | | | |
| Rheoli Gwybodaeth | 4 | Adolygu a datblygu Polisïau Diogelwch Gwybodaeth | Ydy | | | |
| Rheoli Gwybodaeth | 5 | Datblygu systemau a pholisïau i gefnogi cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau statudol, achrediadau a safonau Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, gan gynnwys; Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015 ac Achrediad Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus. | Ydy | | | |
| Rheoli Gwybodaeth | 6 | Ystyried ffyrdd o leihau'r baich ffisegol ac ariannol o storio ar y Cyngor, gan sicrhau cydymffurfiaeth | Ydy | Ydy | | |
| Rheoli Gwybodaeth | 7 | Defnyddio technoleg i leihau'r data a ddyblygir, er mwyn galluogi'r broses o reoli data craidd y Cyngor yn fwy effeithlon a helpu i leihau'r baich o storio e.e. Rheoli Dogfennau Electronig | | | | Oes |
| Rheoli Gwybodaeth | 8 | Manteisio i'r eithaf ar y potensial y mae gwybodaeth yn ei chynnig o ran gwella effeithlonrwydd, cynllunio adnoddau a lleihau'r galw am fethiant drwy ddefnyddio offer delweddu data megis Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) | Ydy (Gydag adnoddau rhannol) | | | Oes |

| Thema'r Strategaeth Ddigidol | Rhif | Cam Gweithredu | A yw'r cam gweithredu wedi ei | A yw'r cam gweithredu yn cael ei | A oes Cais Cyfredol | A oes cam gweithredu nad |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | ariannu'n llawn yng nghyllideb 20-21 | ariannu'n ddangosol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol | am adnoddau | ariennir yn benodol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawni Digidol | 1 | Mapio Technoleg (adnewyddu Glasbrint Technoleg) | Ydy | | | |
| Cyflawni Digidol | 2 | ~~Datblygu trefniadau llywodraethu gwell~~ | Ydy - Cwblhawyd | | | |
| Cyflawni Digidol | 3 | Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy dechnoleg | Ydy | | | |
| Cyflawni Digidol | 4 | Rheoli'r capasiti'n well yn y gwasanaeth | Ydy | | Oes | |
| Cyflawni Digidol | 5 | Blaenoriaethu'n effeithiol ar draws y Cyngor i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu er mwyn darparu atebion yn effeithiol ac yn briodol | Ydy | | | |
| Cyflawni Digidol | 6 | Rhaglen rhesymoli Cymorth ar gyfer Asedau | Ydy | | Oes | |
| Cyflawni Digidol | 7 | Sicrhau bod gennym ddarlun clir o'r holl asedau TG corfforaethol, eu gwerth, gwybodaeth am gontractau perthnasol a thrwyddedau ac amserlenni gwarant a darnau newydd. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r drwydded wrth inni helpu i gynllunio'r broses o reoli asedau ariannol. | Ydy | | | |
| Cyflawni Digidol | 8 | ~~Gweithredu Cyfathrebiadau a Unir gan Fenter: • Microsoft Exchange • Skype for business • Technoleg integredig~~ | Ydy - Cwblhawyd | | | |

| Thema'r Strategaeth Ddigidol | Rhif | Cam Gweithredu | A yw'r cam gweithredu wedi ei ariannu'n llawn yng nghyllideb 20-21 | A yw'r cam gweithredu yn cael ei ariannu'n ddangosol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol | A oes Cais Cyfredol am adnoddau | A oes cam gweithredu nad ariennir yn benodol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawni Digidol | 9 | Cyfuno Systemau Busnes: • Dileu Nodiadau Lotus • Adolygu systemau busnes er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau o fuddsoddiadau mewn meddalwedd 3ydd parti • Rhesymoli systemau i weld a allwn leihau nifer y systemau busnes â photensial i wneud arbedion effeithlonrwydd drwy leihau trwyddedau a gorbenion rheoli systemau | Ydy (Mae angen diweddaru'r cam gweithredu) | | Oes | |
| Cyflawni Digidol | 10 | ~~Gweithredu System Ariannol er mwyn cefnogi Modelau Cyflawni Amgen~~ | Ydy - Cwblhawyd | | | |
| Cyflawni Digidol | 11 | Adolygiad o system ariannol Masterpiece | | | | Oes |
| Cyflawni Digidol | 12 | Gwerthuso a gweithredu technolegau cwmwl; • Microsoft Office 365 • Microsoft Azure | Ydy | | | |
| | **46** | | | | | |

**Ystadegau cryno**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Camau gweithredu a gwblhawyd yn llawn | 10 | Camau gweithredu sy'n destun cais cyfredol am adnoddau | 10 |
| A yw'r cam gweithredu wedi ei ariannu'n llawn yng nghyllideb 20-21 | 27 | A oes cam gweithredu nad oes ganddo adnoddau yn benodol | 9 |
| A yw'r cam gweithredu yn cael ei ariannu'n ddangosol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol | 4 | | |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@audit.wales
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.